# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2022**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**

**HAF 2022**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**

**Cyfrannu at Elusen**

**A1.** Pa ganran o ddynion yr Alban gyfrannodd at elusen rhwng Gorffennaf 2018 a Gorffennaf 2019? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Un marc am nodi:

88%

Adalw gwybodaeth

**A2.** Nodwch a yw'r gosodiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir trwy roi ✓ neu x yn y golofn ar y dde. Mae un wedi ei wneud i chi'n barod. [2]

Un marc am bob ateb cywir:

| | ✓ neu x |
|---|---|
| 57% o'r bobl sy'n cyfrannu at elusen yng Ngogledd Iwerddon yn rhoi arian i elusennau crefyddol. | x |
| Mae mwy o bobl Lloegr yn rhoi arian i gadwraeth nag unrhyw wlad arall ym Mhrydain. | x |
| Yn ne ddwyrain Lloegr, mae hanner y bobl sy'n rhoi arian i elusen yn gwneud hynny trwy dalu arian bob mis. | x |

Adalw a dehongli gwybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**Trec yr Wyddfa**

**A3.** Mae un o'r gosodiadau canlynol yn gywir. Nodwch pa un sydd yn gywir trwy roi ✓ wrth un o'r brawddegau. [1]

Un marc am nodi:

| | |
|---|---|
| Rhaid codi o leiaf gan punt mewn nawdd er mwyn cymryd rhan yn y daith gerdded. | ✓ |
| Os nad ydych yn llwyddo i orffen y daith gerdded, fe gewch eich tâl cofrestru yn ôl. | |
| Cwmni Tŷ Gobaith sy'n noddi'r daith gerdded. | |
| Caiff plant o bob oed gymryd rhan yn y daith gerdded. | |

Adalw a dehongli gwybodaeth

**A4.** Pa air sy'n awgrymu bod yn rhaid cofrestru o flaen llaw er mwyn cymryd rhan yn y daith gerdded? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Un marc am nodi:

angenrheidiol

Dehongli ystyr gair

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Cwis Plant Mewn Angen**

**A5.** Beth yw bwriad yr awdur yn y darn hwn? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Un marc am nodi:

cyflwyno gwybodaeth

Dehongli

**A6.** Esboniwch sut mae Plant Mewn Angen wedi datblygu a newid dros y blynyddoedd. Dylech gyfeirio at y darn darllen i gefnogi eich ateb. [4]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1 marc**
Nodi o leiaf un newid/datblygiad (rhaid cyfleu'r hen a'r newydd)

**2 farc**
Nodi 2-3 newid/datblygiad

**3 marc**
Nodi 2-3+ o newidiadau/datblygiadau gan ddehongli fwy nag unwaith

**4 marc**
Nodi 2-3+ o newidiadau/datblygiadau gan ddehongli'n dda

Gellir nodi:

| | |
|---|---|
| Apêl radio | Teledu/telethon |
| £1,143 / £625,836 | £1 miliwn ar ei newydd wedd |
| Rhaglen 5 munud | Telethon / noson |
| Arth felen - Sooty | Arth felen - Pudsey |
| Sooty/Terry Wogan/Sue Lawley | Alex Jones (o'r llun) |
| Neu unrhyw ffeithiau perthnasol eraill sy'n dangos newid | |
| Enghraifft o ddehongli:<br>Mae hyn yn dangos bod Plant Mewn Angen ar y teledu wedi dod yn fwy poblogaidd ac yn denu mwy o gyfraniadau ariannol. | |

Adalw a dehongli gwybodaeth

**Darn Darllen 4**
**Cymro o Bowys yn cneifio 1,143 o ddefaid mewn 24 awr.**

**A7.** Mae Owen Davies yn falch o'r hyn mae ef wedi ei wneud. Nodwch **un** rheswm sy'n esbonio pam ei fod yn falch. [1]

Un marc ,unrhyw un o'r canlynol:

- Wedi curo'i darged o godi £6,000
- Wedi codi arian at elusen / enwir elusen
- Torf o 400 yn gwylio/cefnogi
- Gwerth y boen i godi cymaint o arian – pam – nid gwerth y boen yn unig
- Chwalu'r targed o ran nifer o ddefaid i'w cneifio
- Wedi codi swm da o arian

Dehongli a rhesymu

**A8.** A yw 'marathon o sialens' yn ddisgrifiad da o'r hyn a wnaeth Owen Davies? Nodwch pa **dechneg/nodwedd arddull** a ddefnyddir yn y disgrifiad a thrafodwch a yw'n **ddisgrifiad da** yn eich tyb chi. [3]

**1 marc** am nodi mai trosiad yw'r nodwedd/dechneg.

Hyd at ddau farc ychwanegol am nodi effaith y disgrifiad:

**1 marc**
Dehongliad cryno/arwynebol o effaith y disgrifiad

**2 farc**
Dehongliad manwl/ gwreiddiol sy'n argyhoeddi

Trafod a gwerthuso techneg arddull

**Darn Darllen 5**
**Gwenu yn Ghana**

**A9.** Pa air yn y darn isod sydd yn golygu bod talu am y daith wedi bod yn anodd. Tanlinellwch **un gair**. [1]

Un marc am nodi:

| |
|---|
| Does dim amheuaeth mai codi'r arian i allu mynd ar fy nhaith i Ghana oedd yr **her** fwyaf. Roedd gennyf tua chwe mis i godi oddeutu £3,000. Er mwyn gallu gwireddu fy mreuddwyd i wirfoddoli yn Ghana, un peth a wnes i godi arian oedd gwerthu fy ngwaith celf i bobl leol. |

Dehongli ystyr gair

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 6**
**Y Seren Fflim â'r Galon Lân**

**A10.** Pam rydych chi'n meddwl bod elusen Achub y Plant wedi dewis Luke Evans fel llysgennad iddyn nhw? [2]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1 marc**
Nodi un rheswm/esboniad cryno neu arwynebol

**2 farc**
Nodi rheswm/rhesymau ac esbonio'n fanwl

- actor
- enwog/adnabyddus
- wyneb cyfarwydd/pobl yn ei adnabod
- pobl yn ei edmygu
- mae ganddo ddylanwad
- llawer o ddilynwyr
- denu sylw cynulleidfa eang

Enghreifftiau o esbonio:
- cynyddu diddordeb
- dangos empathi neu gydymdeimlad

Dehongli a rhesymu

© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 5 a 6**
**Gwenu yn Ghana**
**Y Seren Fflim â'r Galon Lân**

**A11.** **Cymharwch** brofiadau Mari Wyn Jones a Luke Evans. Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen i gefnogi'ch ateb. [8]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1 marc**
Ateb syml sy'n dangos y gallu i dynnu ambell ffaith o'r darnau darllen

**2 farc**
Nodi profiadau o'r ddau ddarn destun (3-4 ffaith) ond ddim yn cymharu'n bwrpasol

**3 marc**
Dechrau cymharu'n fwriadol y ddau brofiad (4+ ffaith) ond heb ymgais i ddehongli

**4 marc**
Cymharu'n fwriadol y ddau brofiad (4+ ffaith) gydag ymgais arwynebol i ddechrau dehongli'r profiadau hynny

**5 marc**
4+ darn o wybodaeth gymharol am y ddau gan gymharu a dechrau dehongli

**6 marc**
Ateb manwl sy'n cymharu'n hyderus ac yn dehongli'n dda

**7 marc**
Ateb manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl, ac weithiau'n heriol, am y ddau gan gymharu'n effeithiol; dehongli yn dda iawn

**8 marc**
Dethol gwybodaeth berthnasol, yn aml yn heriol, yn ddeheuig gan ddehongli'n aeddfed a chymharu'n effeithiol

| Gellir cyfeirio at y canlynol, er enghraifft: | |
|---|---|
| **Mari Wyn Jones** | **Luke Evans** |
| merch | dyn |
| merch ifanc (ddim yn enwog) | actor enwog |
| o Gymru | o Gymru |
| 16 oed | 39 oed |
| teithio dramor | teithio dramor |
| Ghana | Libanus |
| gwaith elusennol | gwaith elusennol |
| codi arian i fynd ar y daith | mynd fel llysgennad i elusen Achub y Plant |

| | |
|---|---|
| plant | plant |
| iechyd ac addysg | addysg |
| wedi bod mewn ysgol | ysgol ar fws yr elusen |
| plant diniwed | plant diniwed |
| plant ac oedolion | plant yn unig |
| disgrifio cartrefi gwael - budredd | disgrifio cartrefi gwael/pabell/llawr concrit |
| plant yn dibynnu ar elusen | plant yn dibynnu ar elusen |
| gwên ar ôl cymorth | gwên ar ôl cymorth |
| eisiau helpu | rhoi llais i blant mewn trybini |
| gallu effeithio/newid pethau | gallu effeithio/newid pethau |
| diffyg adnoddau yn yr ysgol | ysgol yn cael ei chynnal ar fws yr elusen |
| gwerthfawrogi bywyd gartref | gwerthfawrogi bywyd gartref |
| rhan o griw | ar ei ben ei hun/gydag elusen |
| ysgol/canolfan feddygol | gwersyll ffoaduriaid |
| addysg/meddygaeth | rhyfel |
| **Enghreifftiau o ddehongli:** | |
| mynd yn wirfoddol/trefnu ei thaith ei hun/codi arian | cyfrifoldeb fel llysgennad a phethau wedi eu trefnu iddo |
| taith bersonol | cyfrifoldeb i helpu cyd-ddyn - neges ehangach |
| teimlo bod ganddi gyfraniad i'w wneud / gallu newid pethau | teimlo bod ganddo gyfraniad i'w wneud /gallu newid pethau |
| gwneud gwaith elusennol i ariannu'r daith | mynd ar ran elusen |
| plant a phobl yn wynebu heriau | plant yn wynebu heriau |
| siarad yn gyffredinol am blant | enwi plant penodol |
| rhoi ei harian/adnoddau ei hun i helpu | defnyddio'i enwogrwydd er lles y plant |
| defnyddio talent i godi arian a helpu | defnyddio'i ddylanwad i helpu |
| magu hyder | mwynhau cael dylanwad |
| pryderu ei bod ar ei phen ei hun | yr elusen yn gefn iddo/ffotograffydd gydag ef |
| am barhau i helpu | gweld y rôl fel un hirdymor |

Cymharu, dehongli a dod i gasgliad

**A12. Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Roedd Tom wedi llwyddo gan ei fod wedi gweithio'n ____________.

Un marc am nodi:

gydwybodol

(ii) Dyma frawddeg yn y trydydd person yn sôn am Elin. Newidiwch y frawddeg i'r person cyntaf fel ei bod yn sôn amdanoch chi eich hun. [3]

**Aeth Elin i'r dref a phrynodd lyfr newydd er mwyn iddi fedru ei ddarllen yn ystod y gwyliau.**

Un marc yr un hyd at dri am:

Aeth > Es i/ Es/ Euthum
prynodd > prynais / es i brynu / fe wnes i brynu
iddi > i mi > i fi

(iii) Dewiswch **un gair** o'r rhestr a'i osod yn y bwlch. [1]

Un marc am nodi:

**lluniau**

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)

**B1.** Prawf ddarllen

(i) Yn y tabl isod, mae'r ddwy golofn gyntaf yn dangos dau opsiwn, un yn gywir ac un yn anghywir. Dewiswch yr opsiwn cywir a'i ysgrifennu yn y drydedd golofn. Mae un enghraifft wedi ei gwneud i chi'n barod. [3]

Un marc am bob dau ateb cywir (ni roddir marc am yr enghraifft).

| Pa un sy'n gywir? | | cywir |
|---|---|---|
| am hi | amdani | amdani |
| ohonyn nhw | o nhw | ohonyn nhw |
| merch brydferth | merch prydferth | merch brydferth |
| i fynu | i fyny | i fyny |
| gwersau | gwersi | gwersi |
| y bardd | y fardd | y bardd |
| enillodd | ennillodd | enillodd |

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

Un marc am nodi:

dweud wrth

(iii) Mae un gwall yn y frawddeg isod. Yn y golofn gyntaf, nodwch y gwall ac yna cywirwch ef yn yr ail golofn. [1]

Gwelais i ffilm gwych yn y sinema brynhawn ddoe.

Un marc am nodi (Rhaid cael y cywiriad yn gywir i gael y marc):

| Gwall | Cywiriad |
|---|---|
| gwych | wych |

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.